Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

**Penderfyniad a gyhoeddwyd o dan baragraff 69(2)**

**Deddf Llywodraeth Leol 2000**

**Rhif Achos: 202508392**

**Cwyn yn erbyn y Cynghorydd xxxx ("yr Aelod")**

**o Gyngor Cymuned xxxxxxxx ("y Cyngor")**

## Crynodeb o'r gŵyn

Honnwyd gan aelod o'r cyhoedd ("yr Achwynydd") bod yr Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod") drwy ddatgelu ei hunaniaeth hi i berson arall pan ddylai hyn fod wedi'i ystyried yn rhesymol yn wybodaeth gyfrinachol.

## Sut yr ydym yn penderfynu a ddylid ymchwilio

I benderfynu a ddylid ymchwilio i dorri Cod Ymddygiad ("y Cod"), rydym yn defnyddio prawf dau gam. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gall y Cod fod wedi ei dorri. Yn ail, rydym yn ystyried a ydyw er budd y cyhoedd i ymchwilio i'r materion sy'n destun cwyn. Rydym yn ystyried nifer o ffactorau budd y cyhoedd, megis:

- pa mor ddifrifol oedd yr ymddygiad honedig
- a oedd yr aelod wedi camddefnyddio safle o ymddiriedaeth neu wedi ceisio mantais, iddynt hwy eu hunain neu eraill, ar draul y cyhoedd
- a oes angen ymchwiliad i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig
- a yw ymchwiliad yn gymesur o dan yr amgylchiadau neu, os profir, a fyddai atgyfeiriad i Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn addas.

## Fy Mhenderfyniad

**(1) A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Cod Ymddygiad fod wedi ei dorri.**

Eglurodd yr Achwynydd ei bod, yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror 2024, wedi rhoi gwybodaeth allweddol i'r Cyngor ynglŷn â chais cynllunio twyllodrus honedig. Dywedodd yr Achwynydd ei fod wedi'i gytuno ymlaen llaw i gyflwyno'r wybodaeth i'r Cyngor yn y dirgel, a bod y trefniant hwn yn ei le i amddiffyn ei hunaniaeth a’i diogelwch personol oherwydd y wybodaeth y byddai'n ei chyflwyno. Yna, daeth yr Achwynydd yn ymwybodol bod ymgeisydd y cais cynllunio ("yr ymgeisydd"), mewn cyfarfod y Cyngor ym mis Awst 2024 a fynychwyd gan yr ymgeisydd, wedi'i henwi hi yn gyhoeddus fel yr unigolyn a ddarparodd wybodaeth allweddol i'r Cyngor yn y cyfarfod ym mis Chwefror 2024.

Roedd yr Achwynydd yn credu mai'r Aelod oedd yn gyfrifol am ddatgelu ei hunaniaeth i'r ymgeisydd. Roedd hi'n ystyried bod yr Aelod wedi torri paragraff 5(a) o'r Cod sy'n nodi na ddylai aelod ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y dylid yn rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol.

O ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, nid wyf yn credu bod tystiolaeth sy'n adnabod yr Aelod fel yr unigolyn penodol a ddatgelodd hunaniaeth yr Achwynydd ac ni fydd yr Ombwdsman yn ymchwilio oni bai bod tystiolaeth eithaf cryf i awgrymu y gallai’r aelod dan sylw fod wedi torri'r Cod.

Yn absenoldeb tystiolaeth yn dangos bod yr Aelod unigol yn gyfrifol am y datgeliad, rwyf yn ystyried y byddai'n fwy priodol ystyried unrhyw bryderon o'r natur hon dan brosesau gweinyddol neu amddiffyn data y Cyngor, yn hytrach na phrosesau torri'r Cod. Nid yw hyn yn awgrymu canfod unrhyw fai ar ran y Cyngor ac nid oes awgrym bod unrhyw gamweithredu wedi digwydd. Gwneir y gwahaniaeth hwn i adnabod y broses briodol i'w hystyried gan yr Achwynydd yn unig.

Hefyd, cododd yr Achwynydd bryderon bod gan yr Aelod gysylltiad personol a/neu fusnes gyda'r ymgeisydd. Ni ddarparwyd tystiolaeth i gefnogi'r agwedd hon o'r gŵyn.

Gwahoddwyd yr Achwynydd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ac, er bod gwybodaeth bellach wedi'i derbyn, ni roddwyd manylion ychwanegol am natur y cysylltiad personol a/neu fusnes ac arwyddocâd y cysylltiad honedig hwn.

Yn olaf, cododd yr Achwynydd bryderon bod yr Aelod yn defnyddio cyfeiriad e-bost sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan aelod o'r teulu. Darparwyd tystiolaeth annigonol i gefnogi'r agwedd hon o'r gŵyn ac ni esboniodd yr Achwynydd pam ei bod yn ystyried bod hyn yn torri'r Cod. Pa un bynnag, mae'n ymddangos i mi na fyddai mater y gŵyn, ynddo ei hun, yn gyfystyr â thorri'r Cod. Os oes unrhyw bryderon am breifatrwydd neu oblygiadau diogelwch cyfeiriad e-bost yr Aelod, dylai'r rhain gael eu codi gyda, a'u hystyried gan, y Cyngor.

Nodwyd nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r cwynion a wnaed. Fodd bynnag, hyd yn oed pe byddai tystiolaeth bellach i herio'r farn hon, bu i’r digwyddiadau y cyfeirir atynt ddigwydd yn 2024. O ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio, mae hefyd yn annhebygol iawn y byddai'r Ombwdsman yn cynnal ymchwiliad, ar y sail na fyddai'n cael ei ystyried er budd y cyhoedd i ystyried rhywbeth a ddigwyddodd beth amser yn ôl.

**(2) A oes angen ymchwiliad er budd y cyhoedd**

Nid yw'r ymddygiad sy'n destun cwyn yn cwrdd â cham cyntaf y prawf, fel a nodir uchod, ac oherwydd hynny, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.




| | |
|---|---|
| ombwdsmon.cymru<br>0300 790 0203<br>1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ<br>Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg. | ombudsman.wales<br>0300 790 0203<br>1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ<br>We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh. |

## Deilliant

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.

**Penderfyniad y Tîm Cod**
a gymerwyd ar ran

**Michelle Morris**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

**Penderfyniad a gyhoeddwyd o dan baragraff 69(2)**

**Deddf Llywodraeth Leol 2000**

**Rhif Achos: 202508393**

**Cwyn yn erbyn y Cynghorydd xxxx (“yr Aelod”)**

**o Gyngor Cymuned xxxxxxxx ("y Cyngor")**

## Crynodeb o’r gŵyn

Honnwyd gan aelod o'r cyhoedd ("yr Achwynydd") bod yr Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod") drwy ddatgelu ei hunaniaeth hi i berson arall pan ddylai hyn fod wedi'i ystyried yn rhesymol yn wybodaeth gyfrinachol.

## Sut yr ydym yn penderfynu a ddylid ymchwilio

I benderfynu a ddylid ymchwilio i dorri Cod Ymddygiad (“y Cod”), rydym yn defnyddio prawf dau gam. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gall y Cod fod wedi ei dorri. Yn ail, rydym yn ystyried a ydyw er budd y cyhoedd i ymchwilio i'r materion sy'n destun cwyn. Rydym yn ystyried nifer o ffactorau budd y cyhoedd, megis:

- pa mor ddifrifol oedd yr ymddygiad honedig

- a oedd yr aelod wedi camddefnyddio safle o ymddiriedaeth neu wedi ceisio mantais, iddynt hwy eu hunain neu eraill, ar draul y cyhoedd

- a oes angen ymchwiliad i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig

- a yw ymchwiliad yn gymesur o dan yr amgylchiadau neu, os profir, a fyddai atgyfeiriad i Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn addas.

## Fy Mhenderfyniad

**(1) A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Cod Ymddygiad fod wedi ei dorri.**

Eglurodd yr Achwynydd ei bod, yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror 2024, wedi rhoi gwybodaeth allweddol i'r Cyngor ynglŷn â chais cynllunio twyllodrus honedig. Dywedodd yr Achwynydd ei fod wedi'i gytuno ymlaen llaw i gyflwyno'r wybodaeth i'r Cyngor yn y dirgel, a bod y trefniant hwn yn ei le i amddiffyn ei hunaniaeth a'i diogelwch personol oherwydd y wybodaeth y byddai'n ei chyflwyno. Yna, daeth yr Achwynydd yn ymwybodol bod ymgeisydd y cais cynllunio ("yr ymgeisydd"), mewn cyfarfod y Cyngor ym mis Awst 2024 a fynychwyd gan yr ymgeisydd, wedi'i henwi hi yn gyhoeddus fel yr unigolyn a ddarparodd wybodaeth allweddol i'r Cyngor yn y cyfarfod ym mis Chwefror 2024.

Roedd yr Achwynydd yn credu mai'r Aelod oedd yn gyfrifol am ddatgelu ei hunaniaeth i'r ymgeisydd. Roedd hi'n ystyried bod yr Aelod wedi torri paragraff 5(a) o'r Cod sy'n nodi na ddylai aelod ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y dylid yn rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol.

O ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, nid wyf yn credu bod tystiolaeth sy'n adnabod yr Aelod fel yr unigolyn penodol a ddatgelodd hunaniaeth yr Achwynydd ac ni fydd yr Ombwdsman yn ymchwilio oni bai bod tystiolaeth eithaf cryf i awgrymu y gallai'r aelod dan sylw fod wedi torri'r Cod.

Yn absenoldeb tystiolaeth yn dangos bod yr Aelod unigol yn gyfrifol am y datgeliad, rwyf yn ystyried y byddai'n fwy priodol ystyried unrhyw bryderon o'r natur hon dan brosesau gweinyddol neu amddiffyn data y Cyngor, yn hytrach na phrosesau torri'r Cod. Nid yw hyn yn awgrymu canfod unrhyw fai ar ran y Cyngor ac nid oes awgrym bod unrhyw gamweithredu wedi digwydd. Gwneir y gwahaniaeth hwn i adnabod y broses briodol i'w hystyried gan yr Achwynydd yn unig.

Hefyd, cododd yr Achwynydd bryderon bod gan yr Aelod gysylltiad personol a/neu fusnes gyda'r ymgeisydd. Ni ddarparwyd tystiolaeth i gefnogi'r agwedd hon o'r gŵyn. Gwahoddwyd yr Achwynydd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ac, er bod gwybodaeth bellach wedi'i derbyn, ni roddwyd manylion ychwanegol am natur y cysylltiad personol a/neu fusnes ac arwyddocâd y cysylltiad honedig hwn.

Nodwyd nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r cwynion a wnaed. Fodd bynnag, hyd yn oed pe byddai tystiolaeth bellach i herio'r farn hon, bu i'r digwyddiadau y cyfeirir atynt ddigwydd yn 2024. O ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio, mae hefyd yn annhebygol iawn y byddai'r Ombwdsman yn cynnal ymchwiliad, ar y sail na fyddai'n cael ei ystyried er budd y cyhoedd i ystyried rhywbeth a ddigwyddodd beth amser yn ôl.

**(2) A oes angen ymchwiliad er budd y cyhoedd**

Nid yw'r ymddygiad sy'n destun cwyn yn cwrdd â cham cyntaf y prawf, fel a nodir uchod, ac oherwydd hynny, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.

## Deilliant

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.

**Penderfyniad y Tîm Cod**
a gymerwyd ar ran

**Michelle Morris**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

14 Ebrill 2026



ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

**Penderfyniad a gyhoeddwyd o dan baragraff 69(2)**
**Deddf Llywodraeth Leol 2000**
**Rhif Achos: 202507741**
**Cwyn yn erbyn y Cynghorydd XXXX ("yr Aelod")**
**o Gyngor Tref XXXX ("y Cyngor")**

## Crynodeb o'r gŵyn

Honnwyd gan aelod o'r cyhoedd ("yr Achwynydd") bod yr Aelod wedi defnyddio ei safle fel Cynghorydd yn amhriodol mewn ymgais i godi ofn ar yr Achwynydd ac ymyrryd â'i fusnes.

## Sut yr ydym yn penderfynu a ddylid ymchwilio

I benderfynu a ddylid ymchwilio i dorri Cod Ymddygiad ("y Cod"), rydym yn defnyddio prawf dau gam. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gall y Cod fod wedi ei dorri. Yn ail, rydym yn ystyried a ydyw er budd y cyhoedd i ymchwilio i'r materion sy'n destun cwyn. Rydym yn ystyried nifer o ffactorau budd y cyhoedd, megis:

- pa mor ddifrifol oedd yr ymddygiad honedig

- a oedd yr aelod wedi camddefnyddio safle o ymddiriedaeth neu wedi ceisio mantais, iddynt hwy eu hunain neu eraill, ar draul y cyhoedd

- a oes angen ymchwiliad i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig

- a yw ymchwiliad yn gymesur o dan yr amgylchiadau neu, os profir, a fyddai atgyfeiriad i Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn addas.

## Fy Mhenderfyniad

**(1) A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Cod Ymddygiad fod wedi ei dorri**

Ni wnaeth yr Achwynydd ddynodi pa ddarpariaethau yn y Cod y credent fod yr Aelod wedi eu torri ac ychydig iawn o wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi'r gwyn. Gallai fod o gymorth pe bawn yn egluro nad yw pwerau'r Ombwdsmon i dderbyn gwybodaeth yn dod i rym oni bai, ac hyd nes, y byddwn wedi dechrau ymchwiliad yn ffurfiol a byddwn ond yn gwneud hynny pan ddangosir digon o dystiolaeth uniongyrchol i ni y gallai gweithredoedd cynghorydd fod wedi torri’r Cod a'n bod o'r farn ei fod er budd y cyhoedd i ni ddefnyddio ein hadnoddau cyfyngedig i ymchwilio i'r mater. Cyfrifoldeb yr Achwynydd yw darparu'r dystiolaeth uniongyrchol gychwynnol i gefnogi eu cwyn.

Gellid ystyried bod aelod etholedig yn defnyddio eu safle yn amhriodol er anfantais i rywun yn ymddygiad a allai dorri'r Cod, fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth ategol a ddarparwyd i gefnogi'r honiadau hyn. Er bod yr Achwynydd wedi honni bod yr Aelod wedi gwneud adroddiadau a sylwadau negyddol am eu busnes ac wedi gadael nodiadau sarhaus ar eu cerbyd, ni ddarparwyd rhagor o dystiolaeth o'r honiadau hyn nac o sut yr oeddent yn gyfystyr â thorri'r Cod. Rhoddwyd cyfle i'r Achwynydd ddarparu rhagor o wybodaeth i gefnogi'r gŵyn ond ni wnaeth ymateb.

Nid yw'r Ombwdsmon yn gallu dechrau ymchwiliad ar sail haeriadau yn unig ac ni fydd yn ymchwilio i gwyn oni bai bod tystiolaeth eithaf cryf i awgrymu bod yr aelod dan sylw wedi torri'r Cod. Yn yr achos hwn, ni ddarparwyd tystiolaeth i gefnogi'r gŵyn.

**(2) A oes angen ymchwiliad er budd y cyhoedd**

Nid yw'r ymddygiad sy'n destun cwyn yn cwrdd â cham cyntaf y prawf, fel a nodir uchod, ac oherwydd hynny, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.

## Canlyniad

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.

**Penderfyniad y Tîm Cod / Code Team Decision**
a gymerwyd ar ran / taken on behalf of

**Michelle Morris**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus / Public Services Ombudsman

20 Chwefror 2026

**Penderfyniad a gyhoeddwyd o dan baragraff 69(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rhif Achos: 202509749**
**Cwyn yn erbyn y Cynghorydd XXXX ("yr Aelod") o Gyngor XXXX ("y Cyngor")**

## Crynodeb o'r gŵyn

Honnwyd y dylai'r Aelod fod wedi cael ei wahardd rhag sefyll ar gyfer etholiad oherwydd ei fod yn destun gorchymyn methdaliad.

## Sut yr ydym yn penderfynu a ddylid ymchwilio

I benderfynu a ddylid ymchwilio i dorri Cod Ymddygiad (“y Cod”), rydym yn defnyddio prawf dau gam. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gall y Cod fod wedi ei dorri. Yn ail, rydym yn ystyried a ydyw er budd y cyhoedd i ymchwilio i'r materion sy'n destun cwyn. Rydym yn ystyried nifer o ffactorau budd y cyhoedd, megis:

- pa mor ddifrifol oedd yr ymddygiad honedig

- a oedd yr aelod wedi camddefnyddio safle o ymddiriedaeth neu wedi ceisio mantais, iddynt hwy eu hunain neu eraill, ar draul y cyhoedd

- a oes angen ymchwiliad i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig

- a yw ymchwiliad yn gymesur o dan yr amgylchiadau neu, os profir, a fyddai atgyfeiriad i Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn addas.

## Fy Mhenderfyniad

**(3) A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Cod Ymddygiad fod wedi ei dorri**

Yn y bôn, honnodd yr Achwynydd fod yr Aelod wedi cyflawni twyll etholiadol trwy sefyll etholiad a methu â datgelu ei orchymyn methdaliad. Darparodd yr Achwynydd ddolen i Hysbysiad Difidend ("yr Hysbysiad"). Mae'n ymddangos bod yr Hysbysiad yn cadarnhau bod yr Aelod yn destun gorchymyn methdaliad ym mis Mehefin 2009. Mae'r Hysbysiad yn dangos bod yr Aelod wedi'i ryddhau o'r trafodion yn ddiweddarach ond nid oes unrhyw fanylion pellach ar gael. Efallai y byddai'n ddefnyddiol esbonio nad yw methdaliad ynddo'i hun yn anghymhwyso awtomatig rhag sefyll ar gyfer etholiad ac mae hyn yn dibynnu ar y gorchymyn sydd wedi'i wneud. Fodd bynnag, nid rôl yr Ombwdsmon yw ystyried a yw'r Aelod wedi cyflawni twyll etholiadol. Mae hwn yn fater y byddai angen i'r Achwynydd ei adrodd i'r Heddlu neu ei godi gyda'r Comisiwn Etholiadol.

Mae paragraff 6(1)(a) o'r Cod yn dweud na ddylai aelod ymddwyn mewn modd y gellid ei ystyried yn rhesymol fel un sy'n dod â'u swydd neu awdurdod i anfri. Mae canllawiau'r Ombwdsmon yn amlinellu'r fod ymddygiad sy'n arwain at gollfarn droseddol, yn enwedig os yw'n cynnwys ymddygiad anonest, yn gallu dwyn anfri ar Gyngor yr Aelod. Fodd bynnag, yn absenoldeb euogfarn am dwyll etholiadol, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod gweithredoedd honedig yr Aelod yn gallu dwyn anfri ar ei rôl neu ei Gyngor.

Mae'n ymddangos i mi felly nad oes digon o dystiolaeth wedi'i darparu i gefnogi'r gŵyn, ac ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio oni bai bod tystiolaeth eithaf cryf i awgrymu y gallai'r aelod dan sylw fod wedi torri'r Cod.

**(1) A oes angen ymchwiliad er budd y cyhoedd**

Nid yw'r ymddygiad y cwynwyd amdano yn bodloni cam cyntaf y prawf, fel y nodir uchod, felly, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.

## Canlyniad

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.

**Penderfyniad y Tîm Cod / Code Team Decision**
a gymerwyd ar ran

**Michelle Morris**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus / Public Services Ombudsman

11 Mawrth 2026